**LC428**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002**

O dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer swyddogaethau penodol mewn perthynas â chontractau cyflenwadau neu weithfeydd cyhoeddus, weithredu heb ystyried materion anfasnachol. Mae'r swyddogaethau o dan sylw wedi'u rhestru yn adran 17(4) ac mae'r materion sy'n faterion anfasnachol wedi'u rhestru yn adran 17(5).

O dan adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 caiff y Cynulliad, drwy orchymyn, ddarparu mewn perthynas ag awdurdodau gwerth gorau (heblaw awdurdodau heddlu neu dân) fod materion yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion adran 17 o Ddeddf 1988.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y materion a bennir yn adran 17(5)(a) a (d) o Ddeddf 1988 yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion yr adran honno mewn perthynas ag awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru heblaw awdurdodau heddlu a thân.

Mae datgymhwysiad mwy cyfyngedig o adran 17(5)(a) a (d) wedi'i wneud ar gyfer Lloegr, ac ar gyfer awdurdodau heddlu a thân yng Nghymru, gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Ngorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) 2001, OS Rhif 909.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr

cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth.  Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002